GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

**GRŴP CYFEIRIO RHANDDEILIAID**
**STAKEHOLDER REFERENCE GROUP**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:**<br>**DATE OF MEETING:** | 18 July 2023 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:**<br>**TITLE OF REPORT:** | Public Consultation: Urgent and Emergency Children and Young People's (Paediatric) Services |
| **CYFARWYDDWR ARWEINIOL:**<br>**LEAD DIRECTOR:** | Phil Kloer, Deputy Chief Executive and Executive Medical Director |
| **SWYDDOG ADRODD:**<br>**REPORTING OFFICER:** | Yvette Pellegrotti, Principal Programme Manager<br>Conrad Hancock, Senior Project Manager |

**Pwrpas yr Adroddiad** (dewiswch fel yn addas)
**Purpose of the Report** (select as appropriate)

Ar Gyfer Trafodaeth/For Discussion

**ADRODDIAD SCAA**
**SBAR REPORT**

**Sefyllfa / Situation**

Between 26 May and 24 August 2023, the Health Board is inviting staff, volunteers, members of the public, and partner organisations, to share their views about urgent and emergency children and young people's (paediatric) services at Withybush and Glangwili Hospitals. The Health Board is seeking views on how best to provide these services following a series of temporary changes made since 2016.

**Cefndir / Background**

At the May meeting of the Stakeholder Reference Group, members were updated on the progress made ahead of the launch of the consultation on urgent and emergency children and young people's (paediatric) services at Withybush and Glangwili Hospitals.

The public consultation was launched on 26 May and details of how to contribute to the consultation have been shared through a range of methods including:

- Direct mailings to identified stakeholders (email and/or hard copies)
- Press and radio adverts
- Social media
- Press release
- Posters
- Health Board website

To date, five public drop-in events have been held, together with three online events, a number of staff engagement meetings (including with staff who may be impacted by any changes), online meetings with town and community councils and county councils (Carmarthenshire to follow). Additional meetings with schools and community groups are being held, seeking to meet with as many people as possible. Opinion Research Services (ORS) is also holding a series of focus groups that will collect feedback from individuals and service users independently recruited by the ORS.

To date (7 July 2023), 125 online questionnaires have been completed.

A mid-point review will be held on Friday 14 July 2023 and will seek to review the activities to date; share any common themes arising from the consultation; and support the development of additional events and activities to support engagement with the consultation during the period leading up to and including 24 August 2023.

The slides accompanying this SBAR are shared during online events, and members of the SRG are invited to consider the information and share any questions they have during the meeting. Additional information about the consultation, including the questionnaire and a broad range of documents available in a range of formats (Youth, Easy Read, additional language versions including BSL) can be found on the Health Board's website at: https://hduhb.nhs.wales/future-children-services.

**Asesiad / Assessment**

To date, feedback from the Consultation Institute provides assurance that the Health Board is complying with the guidelines required for meaningful engagement and consultation. However, the numbers of individuals participating in events (online and in person) is low, and additional opportunities to engage are being planned. Further details of these events and opportunities are being finalised and members of the Stakeholder Reference Group (SRG) will be updated of progress during the meeting.

**Argymhelliad / Recommendation**

Stakeholder Reference Group members are invited to consider the slide presentation and the verbal update provided (following the mid-point review scheduled for 14 July 2023).

| **Amcanion: (rhaid cwblhau)<br>Objectives: (must be completed)** | |
|---|---|
| Committee ToR Reference:<br>Cyfeirnod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor: | |
| Cyfeirnod Cofrestr Risg Datix a Sgôr Cyfredol:<br>Datix Risk Register Reference and Score: | Not Applicable |
| Parthau Ansawdd:<br>Domains of Quality<br>Quality and Engagement Act (sharepoint.com) | 7. All apply |
| Galluogwyr Ansawdd:<br>Enablers of Quality:<br>Quality and Engagement Act (sharepoint.com) | 6. All Apply |
| Amcanion Strategol y BIP:<br>UHB Strategic Objectives: | All Strategic Objectives are applicable |

| | |
|---|---|
| Amcanion Cynllunio<br>Planning Objectives | 6c Continuous engagement |
| Amcanion Llesiant BIP:<br>UHB Well-being Objectives:<br>Hyperlink to HDdUHB Well-being Objectives Annual Report 2021-2022 | 9. All HDdUHB Well-being Objectives apply |

| **Gwybodaeth Ychwanegol:<br>Further Information:** | |
|---|---|
| Ar sail tystiolaeth:<br>Evidence Base: | As presented |
| Rhestr Termau:<br>Glossary of Terms: | ORS: Opinion Research Services |
| Partïon / Pwyllgorau â ymgynhorwyd ymlaen llaw y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid:<br><br>Parties / Committees consulted prior to Stakeholder Reference Group: | |

| **Effaith: (rhaid cwblhau)<br>Impact: (must be completed)** | |
|---|---|
| **Ariannol / Gwerth am Arian:<br>Financial / Service:** | Any financial impacts and considerations are identified in the report. |
| **Ansawdd / Gofal Claf:<br>Quality / Patient Care:** | Any issues are identified in the report |
| **Gweithlu:<br>Workforce:** | Any issues are identified in the report |
| **Risg:<br>Risk:** | Consideration and focus on risk is inherent within the report.  Sound system of internal control helps to ensure any risks are identified, assessed and managed. |
| **Cyfreithiol:<br>Legal:** | Any issues are identified in the report |

| | |
|---|---|
| **Enw Da:**<br>**Reputational:** | Any issues are identified in the report |
| **Gyfrinachedd:**<br>**Privacy:** | Not applicable |
| **Cydraddoldeb:**<br>**Equality:** | Not applicable |

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

# Gwasanaethau Brys ac Argyfwng Plant ac Ieuenctid (Pediatrig) yn Ysbytai Llwynhelyg a Glangwili

# Urgent and Emergency Children and Young People’s (Paediatric) Services at Withybush and Glangwili Hospitals



# Amdanom ni | About us

Rydym yn cynllunio, yn trefnu, ac yn darparu gwasanethau iechyd i bron 400,000 o bobl ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Rydym yn darparu gwasanaethau plant ac ieuenctid yn lleol mewn:


- Meddygfeydd (Meddygon Teulu)
- Fferyllfeydd Cymunedol
- Deintyddfeydd
- Practisau Optometreg
- Gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu
- gofal o fewn eich cartrefi eich hun

---


We plan, organise, and provide health services for almost 400,000 people across Carmarthenshire, Ceredigion and Pembrokeshire.

Children and young people’s services are provided locally through:

- General Practices (GP surgeries)
- Community Pharmacies (chemists)
- Dental Practices
- Optometrist Practices
- Mental health and learning disability services
- Care within your own homes



# Gwasanaethau presennol | Current services



Mae mynediad 24-awr at wasanaethau pediatrig yn Ysbyty Bronglais ac Ysbyty Glangwili ar gyfer cleifion mewnol. Mae gan Bronglais a Glangwili gyfleusterau adrannau argyfwng ar y safle.

Yn Ysbyty Llwynhelyg ac Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli, mae Unedau Mân Anafiadau 24 awr y gall plant eu defnyddio. Gall yr Unedau Mân Anafiadau drin mân anafiadau mewn plant dros 12 mis oed, a all gynnwys triniaeth ar gyfer anafiadau fel brathiadau anifeiliaid neu bryfed, mân losgiadau, mân anafiadau i'r pen neu rwygiadau i groen y pen, eitemau estron yn y glust/trwyn, anafiadau i'r coesau a'r breichiau, a mân anafiadau i'r llygaid. Mae gwasanaethau cleifion allanol i blant ar gael yn ysbytai Bronglais, Llwynhelyg a Glangwili.

---

There is 24-hour access to paediatric services at Bronglais Hospital and Glangwili Hospital for inpatients. Bronglais and Glangwili have emergency department facilities on the same site.

At Withybush Hospital and Prince Philip Hospital, there are 24- hour Minor Injury Units, which children can access. The Minor Injury Units can treat minor injuries in children over 12 months of age, which can include treatment for injuries such as animal or insect bites, minor burns, minor head injuries or scalp lacerations, foreign bodies in ear/nose, limb injuries, and minor eye injuries. Outpatient services for children are available at Bronglais, Withybush, and Glangwili hospitals.

# Ein ymgynhoriad | Our consultation

- Rydym eisiau eich barn ar sut rydym yn darparu gwasanaethau brys ac argyfwng plant ac ieuenctid (pediatrig) i bobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu gan Ysbyty Llwynhelyg ac Ysbyty Glangwili, neu'n sy'n ymweld â'r ardaloedd hyn.
- Rydym wedi nodi tri opsiwn ar gyfer sut y gellid darparu gofal brys a gofal argyfwng i blant ac ieuenctid yn ysbytai Llwynhelyg a Glangwili yn y dyfodol. Byddai unrhyw newidiadau a wneir yn dilyn yr ymgynghoriad hwn yn parhau hyd nes y bydd yr ysbyty arfaethedig newydd ar gyfer gofal brys a gofal wedi'i gynllunio yn cael ei sefydlu yn yr ardal.
- Ar hyn o bryd, nid oes gennym opsiwn a ffafrir ar gyfer dyfodol y gwasanaeth.

---

- We want your views on how we provide urgent and emergency children and young people's (paediatric) services for people who live in, or visit, areas that are serviced by Withybush Hospital and Glangwili Hospital.
- We have identified three options for how urgent and emergency children and young people's care at Withybush and Glangwili hospitals could be delivered in the future. Any changes made following this consultation would remain in place until the establishment of the proposed new urgent and planned care hospital in the area.
- At this stage, we do not have a preferred option for the future of the service.



# Ddim yn rhan o'r ymgynhoriad | Excluded from the consultation



Nid yw'r gwasanaethau canlynol yn rhan o'r ymgynghoriad hwn:

- Gwasanaethau ysbyty plant (pediatrig) yn Ysbyty Tywysog Philip (darpariaeth mân anafiadau) ac Ysbyty Bronglais (uned cleifion mewnol 24 awr)
- Gofal wedi'i gynllunio a gwasanaethau i blant ac ieuenctid yn y gymuned ar gyfer gofal pediatrig ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

---

The following services are not part of this consultation:

- Children's hospital services (paediatric) at Prince Philip Hospital (minor injuries provision) and Bronglais Hospital (24-hour inpatient unit)
- Children and young people's planned care and services within the community for paediatric care across Hywel Dda University Health Board area

# Pam bod angen newid? | Why do we need to change?

- Datblygwyd y gwasanaethau brys ac argyfwng presennol i blant yn ne rhanbarth Hywel Dda yn dilyn cyfres o newidiadau dros dro a wnaed ers 2016.
- Hyd at Hydref 2014, roedd uned cleifion mewnol pediatrig 24 awr ar gael yn Ysbyty Llwynhelyg ac Ysbyty Glangwili. Roedd plant a dderbyniwyd am driniaeth feddygol yn gallu aros dros nos a chael eu trin yn y ddau ysbyty.
- Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, yn 2014 penderfynwyd nad oedd cael uned cleifion mewnol pediatrig 24/7 yn Ysbyty Llwynhelyg yn ymarferol oherwydd risgiau diogelwch clinigol a achosir gan brinder staff meddygol, er gwaethaf ymdrechion recriwtio.

- The current urgent and emergency children's services in the south of the Hywel Dda region were developed following a series of temporary changes made since 2016.
- Until October 2014, a 24-hour paediatric inpatient unit was available at both Withybush Hospital and Glangwili Hospital. Children admitted for medical treatment were able to stay overnight and be treated at both hospitals.
- Following a period of consultation, in 2014 it was decided that having a 24/7 paediatric inpatient unit at Withybush Hospital was not viable due to clinical safety risks caused by a shortage of medical staff, despite recruitment efforts.



# Newidiadau yn 2014 | Changes introduced in 2014

Penderfynwyd yn Hydref 2014 i wneud y newidiadau parhaol hyn:

- Yn Ysbyty Llwynhelyg, dilëwyd y gwasanaeth cleifion mewnol 24 awr ac yn lle hynny, cyflwynwyd gwasanaeth Uned Gofal Ambiwladol Pediatrig (Uned PACU) 12 awr. Cyfeiriwyd ati fel Ward Pâl. Roedd y model Uned Gofal Ambiwladol Pediatrig newydd hwn yn cynnig gofal yr un dydd i blant ac ieuenctid yn yr ysbyty. Roedd plant ac ieuenctid yn cael asesiad, diagnosis a thriniaeth, ac yn gallu mynd adref ar yr un diwrnod, heb gael eu cadw dros nos.
- Roedd PACU ar agor 12 awr y dydd (10am – 10pm), saith diwrnod yr wythnos. Roedd ganddo welyau ar gyfer asesiad argyfwng, triniaethau dydd meddygol, llawdriniaeth ddydd, ac ymchwiliadau a monitro parhaus.

A decision was made in October 2014 to make the following permanent changes:

- At Withybush Hospital, the 24-hour inpatient service was removed and instead, a 12-hour Paediatric Ambulatory Care Unit (PACU) service was introduced. It was referred to as Puffin Ward. This new Paediatric Ambulatory Care Unit model offered same day care to children and young people at the hospital. Children and young people were assessed, diagnosed, treated, and able to go home on the same day, without being admitted overnight.
- PACU was open 12 hours a day (10am – 10pm), seven days a week. It had beds for emergency assessment, medical day treatments, day surgery, and ongoing investigations and monitoring.



# Newidiadau yn 2014 | Changes introduced in 2014

- Roedd gan PACU ei thîm ymroddedig ei hun o feddygon pediatrig, gan gynnwys ymgynghorwyr, nyrsys plant, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Os oedd unrhyw blant ac ieuenctid angen eu derbyn dros nos, byddent yn cael eu trosglwyddo i Ysbyty Glangwili gan ddefnyddio Cerbyd Ambiwlans Penodedig.
- Yn ystod y cyfnod hwn, doedd dim newid i wasanaethau plant yn Ysbyty Glangwili a pharhaodd â'r uned cleifion mewnol 24 awr yn cefnogi'r rhai a dderbyniwyd ar gyfer gofal dros nos neu ofal tymor hwy ar y ward.

- PACU had its own dedicated team of paediatric doctors, including consultants, children's nurses, and other health care professionals. If any children and young people needed overnight admission, they were transferred to Glangwili Hospital using a Dedicated Ambulance Vehicle (DAV).
- During this time, children's services at Glangwili Hospital remained the same and continued with a 24-hour inpatient unit supporting those admitted for overnight or longer-term care on the ward



# Newid gwasanaeth dros dro 1 | Temporary service change 1

- Gostyngiad dros dro yn oriau gweithredu'r Uned Gofal Ambiwladol Pediatrig yn Ysbyty Llwynhelyg. O 5 Rhagfyr 2016 newidiodd oriau gweithredu Uned Gofal Ambiwladol Pediatrig Ysbyty Llwynhelyg o 10am tan 10pm, i 10am tan 6pm, saith diwrnod yr wythnos.

- Gwnaed newidiadau hefyd i'r rotâu staffio (shifftiau/amseroedd gwaith ein staff) gydag uniad dros dro o'r rotâu ymgynghorydd pediatrig ar alwad dros nos ar gyfer Ysbyty Llwynhelyg ac Ysbyty Glangwili. Roedd hyn yn golygu bod gennym un rota meddygon ymgynghorol ar gyfer de'r bwrdd iechyd yn Ysbyty Glangwili. Roedd rhai o feddygon ymgynghorol Llwynhelyg yn cymryd rhan yn rota ar alwad Glangwili yn dilyn y gostyngiad mewn oriau gweithredu.

- Temporary reduction in the operating hours of the Paediatric Ambulatory Care Unit at Withybush Hospital. From 5 December 2016 the Withybush Hospital Paediatric Ambulatory Care Unit operating hours changed from 10am – 10pm, to 10am – 6pm, seven days per week.

- Changes were also made to the staffing rotas (shifts/times our staff work) with a temporary merger of the paediatric overnight consultant on-call rotas for Withybush Hospital and Glangwili Hospital. This meant we had one consultant rota for the south of the Health Board based at Glangwili Hospital. Some of the Withybush consultants participated in the Glangwili on-call rota following the reduction in operating hours.



# Rheswm dros newid dros dro 1 | Reason for temporary change 1

- Gwnaed y newid oherwydd heriau recriwtio sylweddol. Cafodd hyn effaith ar argaeledd cymorth a goruchwyliaeth gan feddygon ymgynghorol ar y safle ar gyfer yr Uned Gofal Ambiwladol Pediatrig yn Ysbyty Llwynhelyg.
- Roedd hwn yn gam rhagweithiol a gymerwyd i leihau'r risg gynyddol o gau'r gwasanaeth Uned Gofal Ambiwladol Pediatrig yn Ysbyty Llwynhelyg ar fyr rybudd oherwydd diffyg staff.
- Ar ôl ystyried natur fregus y sefyllfa staffio, cytunodd y Bwrdd yn ffurfiol i gyflwyno un rota staffio meddygol dros dro, wedi'i lleoli yn Ysbyty Glangwili, yn hytrach na'r ddwy rota ar wahân ar gyfer ysbytai Glangwili a Llwynhelyg.

- The change was made due to significant recruitment challenges. This had an effect on the availability of on-site consultant support and supervision for the Paediatric Ambulatory Care Unit at Withybush Hospital.
- This was a proactive step taken to reduce the increasing risk of closing the Paediatric Ambulatory Care Unit service at Withybush Hospital at short notice due to lack of staff.
- After considering the fragile nature of the staffing situation, the Board formally agreed to temporarily introduce one medical staffing rota, based at Glangwili Hospital, rather than the two separate rotas for Glangwili and Withybush hospitals.

# Newid gwasanaeth dros dro 2 | Temporary service change 2

- O Mawrth 2020: cau dros dro yr Uned Gofal Ambiwladol Pediatrig yn Ysbyty Llwynhelyg, a elwir hefyd yn Ward Pâl.

**Rheswm dros newid dros dro 2:**

- Roedd pandemig COVID-19 yn golygu bod yn rhaid i'r bwrdd iechyd newid y ffordd yr oedd yn gweithio. Yn ystod pandemig COVID-19, troswyd yr Uned Gofal Ambiwladol Pediatrig yn Uned Mân Anafiadau i oedolion a phlant. Roedd teuluoedd â phlant â mân anafiadau yn dal i allu cael mynediad at ofal yn Ysbyty Llwynhelyg drwy'r Uned Mân Anafiadau, ond cyfeiriwyd y plant hynny â salwch mwy acíwt (salwch yr oedd angen eu hasesu ar adeg mynd yn sâl) i Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin.

- From March 2020, the Paediatric Ambulatory Care Unit at Withybush Hospital, also known as Puffin Ward, was temporarily closed.

**Reason for temporary change 2:**

- The COVID-19 pandemic meant that the Health Board had to change the way it worked. For the duration of the COVID-19 pandemic PACU was converted into a Minor Injury Unit for adults and children. Families with children suffering minor injuries were still able to access care at Withybush Hospital via the Minor Injury Unit, but those children with more acute illness (illnesses needing assessment at the time of becoming unwell) were directed to Glangwili Hospital in Carmarthen.

# Newid gwasanaeth dros dro 3 | Temporary service change 3

- Ar 30 Medi 2021, cytunodd y Bwrdd i barhau i gadw PACU yn Ysbyty Llwynhelyg ar gau dros dro.

### Rheswm dros newid dros dro 3

- Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd i bob bwrdd iechyd wella a chryfhau darpariaeth gwasanaethau pediatrig gan eu bod yn disgwyl ymchwydd yn y Feirws Syncytiol Anadlol (RSV), firws cyffredin sy’n achosi symptomau tebyg i annwyd ac a all arwain at blant angen gofal ysbyty. Roedd y bwrdd iechyd eisoes wedi dechrau gweld nifer cynyddol o blant â’r Feirws RSV yn ein cymuned (mewn meddygfeydd a fferyllfeydd) ac yn ein hysbytai. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn disgwyl i’r sefyllfa hon bara tan fis Mawrth 2022.

- On 30 September 2021, the Board agreed to continue with the temporary closure of PACU at Withybush Hospital.

### Reason for temporary change 3

- Welsh Government directed all Health Boards to enhance and strengthen paediatric service provision as they expected a surge in Respiratory Syncytial Virus (RSV), a common virus that causes cold-like symptoms and can lead to children needing hospital care. The Health Board had already started to see an increased number of children with RSV both in our community (at GP surgeries and pharmacies) and in our hospitals. Public Health Wales expected this situation to last until March 2022.



# Symud ymlaen | Moving forward

- Yn dilyn y tri newid dros dro, mae angen inni nawr roi ateb tymor hwy ar waith. Rydym wedi bod yn gofyn i bobl helpu ddylunio'r opsiynau ar gyfer dyfodol y gwasanaethau. Cawsom gyngor gan the Consultation Institute ar sut i wneud hyn. Cafodd rhai o'r digwyddiadau a gynhaliwyd gennym i helpu lunio'r opsiynau ar gyfer dyfodol y gwasanaeth hwn eu hwyluso'n annibynnol gan y Consultation Institute.

- Cafodd y broses a ddilynwyd gennym i lunio ein hopsiynau ar gyfer gwasanaethau brys ac argyfwng plant ac ieuenctid (pediatrig) ei datblygu gan randdeiliaid allweddol gan gynnwys plant ac ieuenctid, rhieni a gwarcheidwaid, a staff.

- Gwnaed y gwaith hwn mewn pedwar cam – ceir rhagor o wybodaeth am y camau yn ein dogfen ymgynghori.

- Following the three temporary changes, we now need to implement a longer-term solution. We have been asking people to help us design the options for the future of the services. We took advice from the Consultation Institute (tCI) on how to do this. Some of the events we held to help shape the options for the future of this service were independently facilitated by the Consultation Institute.

- The process we followed to shape our options for urgent and emergency children and young people's (paediatric) services were developed by key stakeholders including children and young people, parents and guardians, and staff.

- This work was done in four phases – further information about the phases can be found in our consultation document.


# Tri opsiwn | Three options

- Rydym wedi datblygu tri opsiwn ar gyfer sut rydym yn meddwl y gellir darparu gwasanaethau yn y dyfodol, hyd nes y bydd yr ysbyty arfaethedig newydd ar gyfer gofal brys a gofal wedi'i gynllunio yn cael ei sefydlu yn yr ardal. Mae rhai pethau yr un peth ar gyfer y tri opsiwn, ond mae yna hefyd elfennau newydd ac unigryw ar gyfer pob opsiwn.

- Hoffem gael eich barn ar y tri opsiwn rydym wedi'u datblygu

- We have developed three options for how we think services can be provided in the future, up until the development of our proposed new urgent and planned care hospital. Some things are the same for all three options, but there are also new and unique elements for each option.

- We would like your views on the three options we have developed.



# Yr un peth yn y tri opsiwn | Three options

Byddai Uned Mân Anafiadau ar gyfer plant ac ieuenctid (dan 16 oed) yn Ysbyty Glangwili ac Ysbyty Llwynhelyg

Mae gofal argyfwng (damweiniau ac argyfwng) i blant ac ieuenctid (dan 16 oed) yn parhau yn Ysbyty Glangwili

Ni fyddai unrhyw ofal pediatrig dros nos nac ar y penwythnos yn cael ei ddarparu yn Ysbyty Llwynhelyg. Byddai gwasanaethau plant yn Ysbyty Glangwili yn aros fel y maent ar hyn o bryd, gyda buddsoddiad mewn staffio'r model Uned PACU yng Nghaerfyrddin i gefnogi triniaeth plant ac ieuenctid a fyddai wedi mynychu Ysbyty Llwynhelyg yn flaenorol, a hynny'n barhaol

Byddai'r Cerbyd Ambiwlans Penodedig yn aros. Mae'r Cerbyd yn cefnogi trosglwyddiad argyfwng/brys o blant a phobl ifanc o Sir Benfro, gan gynnwys Ysbyty Llwynhelyg

Mae gweithdrefnau eisoes yn eu lle i sicrhau bod unrhyw blant a phobl ifanc â chyflwr critigol sy'n cyrraedd Ysbyty Llwynhelyg yn cael y gofal gorau sydd ar gael, yn y lleoliad mwyaf priodol

Gwell cysylltiadau ffôn/digidol rhwng meddygfeydd Sir Benfro a staff pediatrig yn Ysbyty Llwynhelyg

There would be a Minor Injuries Unit for children and young people (under 16) at both Glangwili and Withybush hospitals

Emergency care (A&E) for children and young people (under 16 years old) remains at Glangwili Hospital

No overnight or weekend paediatric care would be provided at Withybush Hospital. Children's services at Glangwili Hospital would remain as they are now, with investment in staffing the PACU model in Carmarthen to permanently support the treatment of children and young people who would have previously attended Withybush Hospital

The Dedicated Ambulance Vehicle (DAV) would remain. The DAV supports the emergency/ urgent transfer of children and young people from Pembrokeshire, including Withybush

Procedures are already in place to ensure any children and young people with a critical condition that arrive at Withybush have the best care available, at the most appropriate location

Improved telephone/digital links between Pembrokeshire GP surgeries and paediatric staff at Withybush Hospital

# Opsiwn 1 | Option 1

Mae'r opsiwn hwn yn adeiladu ar yr hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn dilyn y mesurau dros dro a gyflwynwyd yn 2021 oherwydd COVID-19.

- Byddai model Uned PACU yn aros yn Ysbyty Glangwili, ond dim Uned PACU yn Ysbyty Llwynhelyg. Mae bod heb Uned PACU yn Ysbyty Llwynhelyg yn golygu y byddai plentyn â salwch acíwt (salwch sydd angen asesiad) y mae angen ei dderbyn (aros dros nos) yn cael ei drin yn yr uned cleifion mewnol 24 awr yn Ysbyty Glangwili.

- Bydd apwyntiadau cleifion allanol wedi'u trefnu (ar gyfer plant nad oes angen asesiad ar unwaith nac arhosiad dros nos, neu'r rhai heb gyflyrau tymor hwy) ar gael fel rhan o'r opsiwn hwn yn Ysbyty Llwynhelyg. Mae hyn yn ychwanegol at Glinig Mynediad Cyflym, gwasanaeth ar gyfer plant ac ieuenctid sydd wedi cael eu hatgyfeirio gan Feddyg Teulu/adran damweiniau ac argyfwng i gael eu gweld gan bediatregydd yn Ysbyty Llwynhelyg o fewn 72 awr.

This option builds on what is currently being provided following the temporary measures introduced in 2021 due to COVID-19.

- The PACU model would remain at Glangwili Hospital, but with no PACU at Withybush Hospital. Having no PACU at Withybush Hospital means a child with an acute illness (an illness needing assessment) requiring admission (an overnight stay) would be treated at the 24-hour inpatient unit at Glangwili Hospital.

- Booked outpatient appointments (for children not needing immediate assessment, an overnight stay, or for those without longer term conditions) at Withybush Hospital will be available as part of this option. This is in addition to a Rapid Access Clinic, a service which enables children and young people who have been referred by a GP/emergency department (A&E) for non-emergency care, to be seen by a paediatrician at Withybush Hospital within 72 hours.

# Beth sy'n unigryw neu'n newydd? | What is unique or new?

- Rhai gwasanaethau cleifion allanol ychwanegol i blant ac ieuenctid yn Ysbyty Llwynhelyg ond dim Uned PACU yn Ysbyty Llwynhelyg (lle mai hwn yw eu hysbyty agosaf). Byddai'r gwasanaeth ar gael o 9am tan 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

- Byddai mynediad gwell i glinigau ar gael yn Ysbyty Llwynhelyg drwy Glinig Mynediad Cyflym. Byddai hyn yn caniatáu i blentyn neu berson ifanc y mae angen iddo gael ei weld gan bediatregydd yn Ysbyty Llwynhelyg (os mai hwn yw ei ysbyty agosaf) o fewn 72 awr i asesiad cychwynnol gan feddyg teulu, neu gan yr adran damweiniau ac argyfwng.

- Some additional outpatient services for children and young people at Withybush Hospital but no PACU at Withybush Hospital (where this is their nearest hospital). The service would be available 9am - 5pm, Monday to Friday

- Improved access to clinics would be available in Withybush Hospital via a Rapid Access Clinic. This would allow a child or young person needing to be seen by a paediatrician within 72 hours of an initial assessment by a GP or by the emergency department (A&E) to be seen at Withybush Hospital (when this is their nearest hospital)



# Opsiwn 2 | Option 2

Mae'r opsiwn hwn yn adeiladu ar yr hyn a oedd yn bodoli yn dilyn newid dros dro yn 2016, pan gafodd oriau agor Uned PACU yn Ysbyty Llwynhelyg eu lleihau i wyth awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, yn hytrach na gwasanaeth 12 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

- Byddai'r Uned PACU yn Ysbyty Llwynhelyg yn ailagor o 10am tan 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Byddai'n cael ei staffio rhwng 10am ac 8pm, ond ni fyddai unrhyw atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu/gwasanaethau gofal sylfaenol yn cael eu derbyn ar ôl 6pm.
- Bydd apwyntiadau cleifion allanol wedi'u trefnu (ar gyfer plant nad oes angen asesiad ar unwaith nac arhosiad dros nos, neu'r rhai heb gyflyrau tymor hwy) ar gael yn Ysbyty Llwynhelyg fel rhan o'r opsiwn hwn. Mae hyn yn ychwanegol at Glinig Mynediad Cyflym, gwasanaeth ar gyfer plant ac ieuenctid sydd wedi cael eu hatgyfeirio gan Feddyg Teulu/adran damweiniau ac argyfwng i gael eu gweld gan bediatregydd yn Ysbyty Llwynhelyg o fewn 72 awr.

This option builds on what existed following the 2016 temporary change, when the opening hours of PACU at Withybush Hospital were reduced to eight hours a day, seven days a week, rather than a 12-hour, seven days a week service.

- PACU at Withybush Hospital would reopen 10am – 6pm, Monday to Friday. It would be staffed 10am – 8pm, but no referrals would be received from GPs/primary care services after 6pm.
- Booked outpatient appointments (for children not needing immediate assessment, an overnight stay, or for those without longer term conditions) at Withybush Hospital will be available as part of this option. This is in addition to a Rapid Access Clinic, a service for children and young people who have been referred by a GP/emergency department (A&E) to be seen by a paediatrician at Withybush Hospital within 72 hours.

# Beth sy'n unigryw neu'n newydd? | What is unique or new?

- Uned PACU yn Ysbyty Llwynhelyg o 10am tan 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- Byddai meini prawf asesu yn cael eu cyflwyno yn Ysbyty Llwynhelyg i sicrhau bod plant ac ieuenctid yn cael eu trin mewn lleoliadau priodol.
- Bydd apwyntiadau cleifion allanol wedi'u trefnu rhwng 9am a 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, ar gael fel rhan o'r opsiwn hwn, ond mae lefel y gweithgaredd yn debygol o gael ei chyfyngu oherwydd y lle sydd ei angen i ddarparu'r Uned PACU.
- Byddai hyn yn caniatáu i blentyn neu berson ifanc sydd angen cael ei weld gan bediatregydd yn Ysbyty Llwynhelyg (os mai hwn yw ei ysbyty agosaf) o fewn 72 awr i asesiad cychwynnol gan feddyg teulu, neu gan yr Adran Damweiniau ac Argyfwng, ond mae lefel y gweithgaredd yn debygol o gael ei chyfyngu oherwydd y gofod sydd ei angen i ddarparu'r Uned PACU.

- PACU at Withybush Hospital from 10am – 6pm, Monday to Friday.
- Assessment criteria would be introduced at Withybush Hospital to ensure children and young people are treated in appropriate locations.
- Booked outpatient appointments 9am – 5pm, Monday to Friday will be available as part of this option, but the level of activity is likely to be restricted due to the space required to deliver the PACU.
- This would allow a child or young person needing to be seen by a paediatrician within 72 hours of an initial assessment by a GP or by the emergency department (A&E) to be seen at Withybush Hospital (when this is their nearest hospital). However, the level of activity is likely to be restricted due to the space required to deliver the PACU.

# Opsiwn 3 | Option 3

Mae Opsiwn 3 yr un peth ag Opsiwn 2 ond gyda rhai gwasanaethau ychwanegol:

Beth yn ychwanegol sy'n unigryw neu'n newydd i Opsiwn 2

- Yn yr un modd ag Opsiwn 2, Uned PACU yn Ysbyty Llwynhelyg rhwng 10am a 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae lefel y gweithgaredd cleifion allanol yn debygol o gael ei chyfyngu oherwydd y lle sydd ei angen i ddarparu'r Uned PACU, ond gyda rhai gwasanaethau ychwanegol fel darparu rhai triniaethau nad ydynt yn rhai argyfwng fel radioleg, a gofal dydd i'r rheini, er enghraifft, sy'n dychwelyd am feddyginiaeth neu newid rhwymyn.

- Byddai'r adran argyfwng yn Ysbyty Glangwili yn cynnig gwasanaeth gwell ac yn rhoi profiad gwell i blant ac ieuenctid wrth gyrraedd, er enghraifft, mewn ardal aros benodedig.

Option 3 is the same as Option 2 but with some extra services:

What is unique or new in addition to Option 2

- Same as Option 2, PACU at Withybush Hospital from 10am – 6pm, Monday to Friday. The level of outpatient activity is likely to be restricted due to the space required to deliver the PACU, but with some extra services like provision of some non-emergency treatments such as radiology, and day care for those, for example, returning for medication or dressing change.

- The emergency department (A&E) at Glangwili Hospital would offer an enhanced service and give children and young people an improved experience on arrival, for example, via a dedicated waiting area.

# Opsiwn 3 (parhad) | Option 3 (continued)

- Byddai staff adrannau argyfwng yn Ysbyty Llwynhelyg ac Ysbyty Glangwili yn cael hyfforddiant ychwanegol i drin plant ac ieuenctid mewn achosion lle nad oes angen adolygiad gan bediatregydd ymgynghorol ar unwaith.

- Byddai hyfforddiant ychwanegol yn cael ei ddarparu i staff pediatrig (wedi'u lleoli yn yr Uned PACU) yn Ysbyty Glangwili i reoli gweithgarwch adrannau achosion argyfwng yn wahanol. Gallai hyn gynnwys gwella'r asesiad cychwynnol ar gyfer plant ac ieuenctid wrth gyrraedd yr adran damweiniau ac argyfwng, gwella'r profiad ar gyfer achosion argyfwng, a sicrhau yr ymdrinnir â nhw'n briodol (gan gynnwys drwy adolygiad cyflym gan y tîm pediatrig).

- Emergency department (A&E) staff at Withybush and Glangwili hospitals would receive additional training to treat children and young people in cases where a review by a consultant paediatrician is not immediately required.

- Additional training would be provided to paediatric staff (based in the PACU) at Glangwili Hospital to manage emergency department (A&E) activity differently. This could include improving the initial assessment for children and young people on arrival at accident and emergency, improving the experience for emergency cases, and ensuring they are dealt with appropriately (including through rapid review by the paediatric team).



# Beth sy’n wahanol? | What is different?

| | Opswin 1<br>Option 1 | Opswin 2<br>Option 2 | Opswin 3<br>Option 3 |
|---|---|---|---|
| **Clinig Mynediad Cyflym i blant ac ieuenctid sydd wedi cael eu hatgyfeirio gan feddyg teulu/adran argyfwng i gael eu gweld gan bediatregydd yn Ysbyty Llwynhelyg o fewn 72 awr**<br>***Rapid Access Clinic for children and young people who have been referred by a GP/emergency department (A&E) to be seen by a paediatrician at Withybush Hospital within 72 hours*** | Oes<br>*Yes* | Gweithgaredd cyfyngedig (diffyg lle oherwydd PACU)<br>*Limited activity (lack of space due to PACU)* | Gweithgaredd cyfyngedig (diffyg lle oherwydd PACU)<br>*Limited activity (lack of space due to PACU)* |
| **Apwyntiadau claf allanol wedi’u trefnu (ar gyfer plant nad oes angen asesiad ar unwaith nac arhosiad dros nos, neu’r rhai heb gyflyrau tymor hwy) yn Ysbyty Llwynhelyg**<br>***Booked outpatient appointments (for children not needing immediate assessment, an overnight stay, or for those without longer term conditions) at Withybush Hospital*** | Oes<br>*Yes* | Gweithgaredd cyfyngedig (diffyg lle oherwydd PACU)<br>*Limited activity (lack of space due to PACU)* | Gweithgaredd cyfyngedig (diffyg lle oherwydd PACU)<br>*Limited activity (lack of space due to PACU)* |
| **Uned PACU yn Ysbyty Llwynhelyg rhwng 10am a 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener**<br>***PACU at Withybush Hospital between 10am and 6pm, Monday to Friday*** | Nac oes<br>*No* | Oes<br>*Yes* | Oes<br>*Yes* |
| **Darparu rhai triniaethau nad ydynt yn rhai brys megis radioleg; a gofal dydd fel dychwelyd am feddyginiaeth neu newid rhwymyn**<br>***Provision of some non-emergency treatment such as radiology; and day care such as returning for medication or dressing change*** | Nac oes<br>*No* | Nac oes<br>*No* | Oes<br>*Yes* |

# Beth sy’n wahanol? | What is different?

| | Opswin 1<br>Option 1 | Opswn 2<br>Option 2 | Opswn 3<br>Option 3 |
|---|---|---|---|
| **Gwell gwasanaeth yn adran argyfwng Ysbyty Glangwili, gan roi profiad gwell i blant a phobl ifanc ar ôl cyrraedd yno (e.e. man aros penodedig)**<br>***Enhanced service at Glangwili Hospital emergency department (A&E), giving children and young people an improved experience on arrival (e.g., via a dedicated waiting area)*** | Nac oes<br>*No* | Nac oes<br>*No* | Oes<br>*Yes* |
| **Hyfforddiant ychwanegol ar gyfer staff adrannau argyfwng yn y ddau ysbyty i drin plant ac ieuenctid pan nad oes angen adolygiad gan bediatregydd ymgynghorol ar unwaith**<br>***Additional training for emergency department (A&E) staff at both hospitals to treat children and young people when a review by a consultant paediatrician is not immediately needed*** | Nac oes<br>*No* | Nac oes<br>*No* | Oes<br>*Yes* |
| **Hyfforddiant ychwanegol ar gyfer staff pediatrig (PACU) yn Ysbyty Glangwili i reoli mewn ffordd wahanol weithgarwch adrannau argyfwng ar gyfer plant ac ieuenctid (er enghraifft, gwella asesu cychwynnol, gwella’r profiad ar gyfer achosion argyfwng, a sicrhau yr ymdrinnir â hwy’n briodol)**<br>***Additional training for paediatric (PACU) staff at Glangwili Hospital to manage emergency department (A&E) activity for children and young people differently (for example, improving initial assessment, improving the experience for emergency cases, and ensuring they are dealt with appropriately)*** | Nac oes<br>*No* | Nac oes<br>*No* | Oes<br>*Yes* |
| **Amcangyfrif o’r gost ychwanegol**<br>***Estimated additional cost*** | *£880,000* | £1.3 miliwn<br>*£1.3 million* | £1.3 miliwn gyda hyfforddiant mewnol<br>*£1.3 million + in-house training cost* |

# Beth yr ydym am wybod | What we want to know

Mae arnom angen ateb cynaliadwy ar gyfer sut yr ydym yn gweithredu gwasanaethau brys ac argyfwng i blant a phobl ifanc yn ne rhanbarth Hywel Dda.

Yn yr ymgynghoriad rydym yn gofyn i chi rannu eich barn ar:

- Pa mor addas yw pob un o'r tri opsiwn ar gyfer darparu gwasanaethau brys ac argyfwng i blant ac ieuenctid yn Ysbyty Llwynhelyg ac Ysbyty Glangwili rhwng nawr a sefydlu'r rhwydwaith ysbytai newydd arfaethedig
- Yr effeithiau cadarnhaol a negyddol sy'n gysylltiedig â phob un o'r tri opsiwn yn eich barn chi, fel y gallwn fod yn ymwybodol ohonynt ac osgoi, mynd i'r afael â, neu leihau'r effaith os yn bosibl
- Unrhyw beth arall y credwch sydd angen i ni ei ystyried – edrychwn ymlaen at glywed unrhyw syniadau newydd sydd gennych
- Mae eich barn yn bwysig i ni a gall ddylanwadu ar benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch yr opsiwn a ffafrir o ran sut y bydd gwasanaethau brys ac argyfwng i blant ac ieuenctid yn Ysbytai Llwynhelyg a Glangwili yn cael eu darparu rhwng nawr a sefydlu'r rhwydwaith ysbytai newydd arfaethedig.

We need a sustainable solution for how we operate urgent and emergency children and young people's services in the south of the Hywel Dda area.


In this consultation we will ask you to tell us:

- How suitable each of the three options are in delivering urgent and emergency children and young people's services at Withybush Hospital and Glangwili Hospital between now and the establishment of the proposed new hospital network
- The positive and negative impacts you feel are associated with each of the three options, so we can be aware of them and avoid, address, or reduce the impact if possible
- Anything else you think we need to consider – we look forward to hearing any new ideas you may have
- Your views are important to us and can influence future decisions about the preferred option for how urgent and emergency children and young people's services at Withybush Hospital and Glangwili Hospital will be delivered between now and the establishment of the proposed new hospital network

# Beth sy'n digwydd nesaf? | What happens next?

- Rydym yn ymgysylltu â'n cymunedau mewn cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus a thri digwyddiad ar-lein
- Anogwch eich cydweithwyr, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau o'ch cymuned i ddarllen y wybodaeth sydd ar gael ac ymuno â ni mewn digwyddiad – unai wyneb yn wyneb neu ar-lein
- Rydym yn awyddus i glywed barn pawb, gan gynnwys y rhai hynny na chlywir yn aml, er mwyn deall unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol o'r lleoliadau dan sylw. Helpwch ni i ddeall pwy rydyn ni'n siarad â nhw trwy gwblhau'r Holiadur Cydraddoldeb.
- Rhannwch eich barn trwy lenwi'r holiadur sydd ar gael ar-lein.

- We are engaging with our communities at a series of events based and three online public events.
- Please encourage colleagues, service users, and members of your community to read the information available and join us at an event – either in person or online.
- We are keen to hear the views of everyone, including those who are seldom heard, and understand any positive or negative impact of proposed locations. Please help us to understand who we are talking to by completing the Equalities Questionnaire.
- Please share your views by completing the questionnaire available online.



# Rhannu eich barn | Sharing your views

- Llenwi'r holiadur sydd ar gael a'i bostio i: **Opinion Research Services, FREEPOST SS1018, PO Box 530, Abertawe, SA1 1ZL**
- Ar-lein yn: **biphdd.gig.cymru/gwasanaethau-plant-yn-y-dyfodol**
- Mewn ebost: **hyweldda.engagement@wales.nhs.uk**
- Dros y ffôn **0300 303 8322** (pris galwad leol)
- Ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio **#GwasanaethauPlantYDyfodol**
- Twitter **@BIHywelDda**
- Facebook **@Bwrdd Iechyd Hywel Dda**

**Y dyddiad cau i ddweud eich dweud, fel y gellir cynnwys eich barn yn yr ymgynghoriad yw 24 Awst 2023.**

- Completing the questionnaire available and posting it to: **Opinion Research Services, FREEPOST SS1018, PO Box 530, Swansea, SA1 1ZL**
- Online at: **hduhb.nhs.wales/future-children-services**
- Emailing us: **hyweldda.engagement@wales.nhs.uk**
- By telephoning **0300 303 8322** (local call rates)
- Through social media using **#FutureChildrenServices**
- Twitter **@HywelDdaHB**
- Facebook **Hywel Dda Health Board**

**The deadline to tell us what you think, so that your opinions can be included in the consultation, is Friday 24 August 2023.**





# Diolch yn fawr | Thank you